Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

Cynllun Busnes 2012/13

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi rhestru unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan: www.bcomm-wales.gov.uk

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

CYNLLUN BUSNES 2012/13

EBRILL 2012

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE
Ffôn: +44 (0)29 20395031
Rhif Ffacs: +44 (0)29 20395250
E-bost: bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	1
1. Cyflwyniad	2
2. Amcanion	4
3. Arolwg o Etholaethau Seneddol 2013	5
4. Cyllideb a Staffio	7

Rhagair

Yn 2011, dechreuodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru gynnal ei arolwg ffurfiol o ffiniau etholaethau seneddol ar gyfer 2013. Dilynodd yr arolwg hwn y rheolau a amlinellwyd yn Neddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 a dyma'r arolwg mwyaf arwyddocaol ers creu'r Comisiwn ym 1944.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd, datblygodd y Comisiwn gynigion ar gyfer map etholaethau Seneddol diwygiedig o Gymru, gyda 30, yn hytrach na 40 o etholaethau roedd pob un ohonynt o fewn 5% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig. Cyhoeddwyd y cynigion cychwynnol hyn ar 11 Ionawr 2012. Roedd rhyddhau cynigion cychwynnol yn ddechrau proses ymgynghori cyhoeddus lle y caiff aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb roi sylwadau ar gynigion y Comisiwn. Mae trafodaethau bywiog a defnyddiol wedi dechrau ac, yn ystod 2012/13, bydd y Comisiwn yn gwrando ar sylwadau pobl ac ystyried lle y gallai newidiadau i'w gynigion cychwynnol fod yn briodol.

Mae cynnal arolwg sy'n cynrychioli lefel newid ddigynsail i'r etholaethau Seneddol yn her wirioneddol. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Comisiwn, gyda chymorth ei Ysgrifenyddiaeth, yn symud tuag at gamau olaf yr arolwg. Bydd ein hymgynghoriad cyhoeddus helaeth yn parhau wrth i ni ystyried gwneud newidiadau i'n cynigion cychwynnol ac wrth i ni ffurfio cynigion terfynol i'w cyflwyno i'r Llywodraeth erbyn Hydref 2013.

Drwy gydol Arolwg 2012, bydd y Comisiwn yn parhau i weithredu'n annibynnol a heb ragfarn, a bydd yn ymatebol i anghenion a phwysau cyfnewidiol.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn amlinellu'n fyr y prif flaenoriaethau i'r Comisiwn a'i Ysgrifenyddiaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13, a'r adnoddau a fydd yn cyflawni'r amcanion hyn.

Yr Anrhydeddus
Meistr Ustus Lloyd Jones
Dirprwy Gadeirydd

Ben Whitestone
Ysgrifennydd

1. Cyflwyniad

Y Noddwr

1.1 Corff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol a noddir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan Swyddfa'r Cabinet yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol yw eu cyflwyno gerbron y Senedd. Lle bo'r adroddiad yn argymell bod angen gwneud addasiadau i ffiniau etholaethau Seneddol neu ffiniau rhanbarthau etholaethol y Cynulliad Cenedlaethol, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno copi drafft o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd, er mwyn dod ag argymhellion y Comisiwn i rym. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Dirprwy Gadeirydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi un o aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, a'r Ysgrifennydd i'r Comisiwn (gweler Aelodaeth isod).

Y Comisiwn

1.2 Mae'r Comisiwn wedi'i sefydlu o dan adran ac atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Corff annibynnol, anwleidyddol a chwbl amhleidiol ydyw. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried ffactorau gwleidyddol ac ni chaiff effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol eu hystyried.

1.3 O 1 Ionawr 2002, mae swyddogion Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, a leolir yng Nghaerdydd, wedi staffio Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau[1] hefyd. Er bod adeiladau a rhai adnoddau staff yn cael eu rhannu, mae Ysgrifenyddiaethau'r ddau Gomisiwn yn gweithredu'n annibynnol i'w gilydd.

Aelodaeth

1.4 Siaradwr Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Siaradwr yn pwysleisio annibyniaeth, amhleidioldeb a natur anwleidyddol y Comisiynau. Nid yw'r Siaradwr yn cyfrannu o gwbl at gynnal arolygon. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n eistedd yn y cyfarfodd, yn Farnwr yn yr Uchel Lys: yr Anrhydeddus Meistr Ustus Lloyd Jones. Yr Aelodau yw Mr Paul Loveluck a'r Athro Robert McNabb.

[1] Ac eithrio'r Ysgrifenyddiaeth o fis Rhagfyr 2011 – gweler aelodaeth.

1.5 Caiff y Comisiynwyr eu penodi'n rhan-amser a byddant yn cyfarfod pryd bynnag y bydd y rhaglen yn gofyn am hynny. Ers cymeradwyo Deddf y Comiswn Ffiniau 1992, mae Aelodau'r Comisiwn (ac eithrio'r Dirprwy Gadeirydd) wedi cael ffi ddyddiol y cytunir arni gan yr Adran Nawdd gyda Thrysordy Ei Mawrhydi ar gyfer gwaith a wneir ar ran y Comisiwn a chyda'r Dirprwy Gadeirydd, ac mae ganddynt hawl i adennill unrhyw dreuliau (megis costau teithio a chynhaliaeth) yr eir iddynt yng ngwaith y Comisiwn.

1.6 Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr o Fuddiannau Aelodau, sy'n cael eu diweddaru bob blwyddyn. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael ar gais.

1.7 Mae gan y Comisiwn ddau aseswr statudol. Un o'r rhain yw'r Bwrdd Ystadegau (a gynrychiolir gan yr Ystadegyn Cenedlaethol), a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans. Mae dirprwyon yn cynrychioli'r ddau yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

1.8 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn penodi Ysgrifennydd i'r Comisiwn, Mr Ben Whitestone, sy'n bennaeth ar yr Ysgrifenyddiaeth ac sy'n Swyddog Cyfrifyddu. Caiff yr Ysgrifennydd ei gyflogi'n ffurfiol gan Swyddfa'r Cabinet. Tan fis Rhagfyr 2011, roedd Ysgrifennydd ar y Cyd â'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, câi'r swydd hon ei chyflawni gan Mr Edward Lewis.

1.9 Rôl yr Ysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr o ran cynnal eu harolygon a gwneud eu penderfyniadau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi'i lleoli yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yng Nghaerdydd a chaiff ymgysylltu mewn perthynas â staffio ac adeiladau ei gynnal gyda Llywodraeth Cymru.

Dyletswyddau Statudol

1.10 Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw parhau i adolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol, cynnal arolygon rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a llunio adroddiadau gydag argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Gall y Comisiwn gynnal arolygon disgresiynol neu interim yn un neu fwy o etholaethau lle bo'r Comisiynwyr yn tybio bod hyn yn briodol.

1.11 Gwnaeth Deddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu seddau Seneddol. Ar 4 Mawrth 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddechau Arolwg 2013 o etholaethau Seneddol yng Nghymru a fyddai'n dod ar ôl y newidiadau i ddeddfwriaeth.

1.12 Dileodd y Ddeddf y cysylltiad rhwng yr etholaethau Seneddol ac etholaethau'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd. Disgwylir i ddeddfwriaeth newydd roi dulliau ar waith erbyn hyn er mwyn arolygu etholaethau'r Cynulliad Cenedlaethol yn rheolaidd.

2. Amcanion

Amcan Cyffredinol

2.1 Parhau i adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Cynulliad Cenedlaethol i Gymru[2] yn barhaus.

Amcanion Penodol 2012/13

2.2 Amcanion lefel uchel allweddol y Comisiwn ar gyfer 2012/13 yw:

- Datblygu Arolwg o Etholaethau Seneddol 2013 yn unol â Deddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011.
- Sicrhau bod holl waith y Comisiwn Ffiniau i Gymru'n cael ei wneud gyda'r bwriad o gynnig y gwerth gorau posibl am arian.
- Sicrhau bod pob rhanddeiliad â diddordeb ynghlwm wrth y broses yn effeithiol fel eu bod yn llwyr ddeall arolygon o etholaethau Seneddol a'u bod yn gallu cyfrannu at y broses arolygu.

Cynllun yr Iaith Gymraeg

2.3 Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog erbyn hyn. Bydd pob darn o ddogfennaeth swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a chan sefydliadau yn Gymraeg yn ac yn Saesneg.

[2] Gweler paragraff 1.12

3. Arolwg o Etholaethau Seneddol 2013

Cefndir

3.1 Gwnaeth Deddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth yn llywodraethu dosbarthiad seddau Seneddol yn y DU. Mae'r Ddeddf yn lleihau nifer yr etholaethau Seneddol yng Nghymru o 40 i 30 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth fod â nifer tebyg o etholwyr (rhwng 72,810 a 80,473). Bydd Arolwg o Etholaethau Seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer 2013 yn datblygu cynigion i'r Llywodraeth o ran sut y dylid rhoi'r Ddeddf ar waith yng Nghymru.

3.2 Ar 11 Ionawr 2012, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei Gynigion Cychwynnol. Hon oedd dechrau'r broses ymgynghori lle y gofynnodd y Comisiwn i bobl Cymru helpu i lunio etholaethau Seneddol diwygiedig. Rhwng 11 Ionawr a 4 Ebrill 2012, derbyniodd y Comisiwn sylwadau ar ei gynigion cychwynnol, yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn pum cyfarfod cyhoeddus.

3.3 Yn ystod 2012/13, prif amcan y Comisiwn fydd datblygu ei arolwg ar gyfer 2013 – mae'r prif dasgau a cherrig milltir wedi'u hamlinellu isod. Mae rhagor o wybodaeth am waith y Comisiwn neu Arolwg 2013 ar gael ar wefan y Comisiwn www.bcomm-wales.gov.uk.

Tasgau

3.4 Mae prif dasgau'r Comisiwn ar gyfer 2012/13 wedi'u hamlinellu isod ac maent wedi'u seilio ar ofynion statudol. Ni roddir unrhyw amseru penodol gan y gall amseru fod yn hyblyg er mwyn ystyried ffactorau megis nifer y sylwadau a ddaw i law, cymhlethdod y materion a godir ac amseru cyfnodau ymgynghori'n briodol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i ddyddiad cau Hydref 2013 ar gyfer cyflwyno argymhellion terfynol.

a. Cyhoeddi pob ymateb a ddaw i law yn ystod cam cyntaf ymgynghori cyhoeddus ar y cynigion cychwynnol a sicrhau bod y rhain ar gael ar gyfer sylwadau am gyfnod o bedair wythnos. Er mwyn gwneud hyn:

- Caiff ymatebion eu paratoi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys: cyfieithu pob ymateb (ymatebion ysgrifenedig a thrawsgrifiadau gwrandawiadau cyhoeddus) fel eu bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg; golygu gwybodaeth bersonol o ymatebion; paratoi dyluniad a chynnwys cyhoeddiadau ar y we; argraffu ymatebion i'w hadneuo.

- Byddwn yn cyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys ASau, ACau, Cynghorau a'r cyhoedd) i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cynlluniau penodol ar gyfer yr ail gyfnod ailgynghori a sut gallant gyfrannu.

b. Datblygu proffiliau diwygiedig fel bo'n briodol ac ymgynghori ar y rhain am gyfnod o wyth wythnos. Er mwyn gwneud hyn:

- Bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn paratoi adroddiad ac yn gwneud argymhellion i'r Comisiwn wedi'u seilio ar ymatebion a ddaw i law yn ystod y cyfnodau ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnodau ymgynghori.
- Bydd y Comiswn yn ystyried y sylwadau a ddaw i law ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol a bydd yn penderfynu p'un ai i wneud newidiadau i'w gynigion cynorthwyol.
- Caiff adroddiad cynigion diwygiedig ei ddrafftio, ei baratoi i'w gyhoeddi'n electronig, ei argraffu a'i ddosbarthu.
- Caiff ymatebion o'r ail gyfnod ymgynghori eu cyfieithu a'u paratoi yn unol â lansio cynigion diwygiedig.
- Cyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynlluniau penodol y trydydd cyfnod ymgynghori a sut gallant gyfrannu.
- Caiff ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynigion diwygiedig eu derbyn, eu cofnodi a'u hystyried gan y Comisiwn.

Ymagwedd at Reoli Risgiau

3.5 Er mwyn sicrhau y caiff Arolwg 2013 ei gyflwyno'n llwyddiannus ac er mwyn annog dulliau rheoli corfforaethol cadarn, mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cadw cofrestr risgiau ac yn rheoli risg bob dydd ac yn unol ag arweiniad gan Drysordy Ei Mawrhydi *Rheoli Risg: Egwyddorion a Chysyniadau.*

Y Camau Nesaf

3.6 Yn sgîl yr ymgynghoriad cyhoeddus ar argymhellion diwygiedig, bydd y Comisiwn yn paratoi ei argymhellion terfynol i'w cyflwyno i'r Llywodraeth erbyn mis Hydref 2013.

4. Cyllideb a Staffio

Cyllideb 2012/13

4.1 Mae Tabl 1 yn dangos cyllideb y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13. Caiff y gyllideb ei darparu gan Swyddfa'r Cabinet o'r gyllideb bresennol y cytunwyd arni fel rhan o'r arolwg o wariant diweddaraf.

Tabl 1 – Cyllideb a Gwariant

Elfen Gyllideb	**Cyllideb (£)**
Cyflogau ac Yswiriant Gwladol	207600
Costau Cynnal (h.y. Llety, Deunydd Swyddfa, TG, Hyfforddiant, Cyhoeddiadau, Cyfreithiol)	78000
Teithio a Chynhaliaeth	5000
Hysbysebu, Marchnata ac Argraffu	118000
Cyfieithu	5000
Ffïoedd Comisiynwyr Cynorthwyol	45000
Ffïoedd Comisiynwyr	20000
Teithio a Chynhaliaeth Comisiynwyr	3000
Cyfanswm	**481,600**

4.2 Mae Tabl 2 yn dangos nifer y staff a gaiff eu defnyddio i wneud gwaith y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn 2012/13. Gan fod cymorth Ysgrifenyddiaeth yn cael ei rannu gyda'r Comiswn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru[3], mae adnoddau staffio'n hyblyg gan ddibynnu ar y blaenoriaethau a llwyth gwaith pob comisiwn.

Tabl 2 – Staffio

Swydd	**Statws Cyflogaeth**
Dirprwy Gadeirydd	Di-dâl
Comisiynwyr (x2)	Talu Ffïoedd
Comisiynwyr Cynorthwyol (x3)	Talu Ffïoedd
Ysgrifennydd	1 Cyfwerth ag amser lawn
Rheolwr Adolygu	1 CAALl
Staff Eraill yr Ysgrifenyddiaeth	3 CAALl

[3] Gweler paragraff 1.3

© Hawlfraint y Goron 2012